# Offeryn 3: Offeryn i'ch Cefnogi wrth Gynnal Asesiad o Degwch Iechyd

Mae hwn yn ganllaw manylach i'r sawl sy'n gyfrifol am ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau neu raglenni. Mae'n cynnwys nodiadau arweiniol i gefnogi eich ymatebion ym mhob adran.

<table>
<tr><td>Pa wasanaeth/Rhaglen/prosiect sy'n cael ei asesu?</td><td></td></tr>
<tr><td>Dyddiad cwblhau'r asesiad</td><td></td></tr>
<tr><td>Manylion y person cyswllt</td><td></td></tr>
<tr><td>Arweinydd strategol</td><td></td></tr>
<tr><td>Eich camau</td><td>Nodiadau arweiniol i gefnogi eich ymateb i gamau perthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="2"><ul><li>Paratoi: cytuno ar gwmpas eich gwasanaeth/rhaglen neu brosiect a chasglu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch</li></ul></td></tr>
<tr><td>Nodwch eich amcan. Sut ydych chi'n disgwyl i'ch gwasanaeth neu raglen leihau anghydraddoldebau iechyd?</td><td>Wrth baratoi eich amcan, meddyliwch beth ydych am ei wella? A sut olwg sydd ar safon 'dda'? Byddwch yn glir ac yn gryno. Gallwch ddefnyddio dull SMART i'ch helpu i:<br><br>Penodol (Specific) -<br><br>Beth fydd yn cael ei gyflawni? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd?<br><br>Mesuradwy -<br><br>Pa ddata fydd yn mesur y nod? (Faint? Pa mor dda?)<br><br>Cyraeddadwy (Achievable) -<br><br>Ydy'r amcan yn gyraeddadwy? Oes gennych chi'r sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol?</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | **Perthnasol (R**elevant) -<br>Sut mae'r amcan yn cyd-fynd â nodau ehangach? Pam fod y canlyniad yn bwysig?<br>**Amserol (T**ime-bound) -<br>Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni'r amcan? |
| **Beth yw'r ffynonellau data allweddol, a thystiolaeth sy'n eich galluogi i adnabod anghydraddoldebau iechyd yn eich gwasanaeth, rhaglen neu brosiect?** | **Ffynonellau posibl i'w hystyried a'u casglu:**<br>Eich data am wasanaethau / practis cyffredinol – (os yw hwn yn wasanaeth sy'n bodoli eisoes)<br>Eich data lleol (asesiadau o anghenion lleol, proffiliau ardaloedd lleol, cofnodion mewnol eich gwasanaeth, unrhyw berfformiad lleol, neu ddata ansoddol sydd ar gael gan wasanaethau neu raglenni perthnasol neu debyg, asesiad o'r effaith ar degwch o ran iechyd, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb)<br>Unrhyw waith ymchwil lleol neu genedlaethol<br>Gellir dod o hyd i ddata sydd ar gael yn genedlaethol ar fesuryddion amrywiol. Gweler Atodiad 1 am ffynonellau data |
| **A ydych chi wedi adnabod arweinydd neu hyrwyddwr o fewn eich grŵp / tîm / gwasanaeth / sefydliad i yrru'r agenda a chynllun anghydraddoldebau?** | Fe wnaeth adolygiad cyflym o dystiolaeth gan y Comisiwn Ansawdd Gofal5 ynghylch siarad am anghydraddoldebau iechyd drwy wasanaethau a sefydliadau ganfod bod arweinyddiaeth gref yn un o'r prif ffactorau sy'n golygu y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ac mae'n argymell y dylai sefydliadau gael arweinydd neu hyrwyddwr strategol penodol.<br>Rapid evidence review: Tackling inequalities through the regulation of services and organisations - Care Quality Commission (cqc.org.uk) – Saesneg yn unig |
| • **Asesu: Dylech ystyried y dystiolaeth a'r data i asesu'r canlynol** | |
| **Ydych chi'n deall eich poblogaeth?**<br>**Pwy ydyn nhw?** | Meddyliwch pwy sy'n profi annhegwch ac anghydraddoldeb fwyaf o ran iechyd, y mae angen datrys y broblem? Ystyriwch nifer o ddimensiynau o anghydraddoldebau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:<br>• Daearyddiaeth (amrywiad mewn poblogaethau trefol a gwledig) |

| | |
|---|---|
| | <ul><li>Statws economaidd-gymdeithasol ac amddifadedd (e.e., di-waith, incwm isel, ardaloedd difreintiedig)</li><li>Nodweddion gwarchodedig yn y ddyletswydd cydraddoldeb</li><li>Grwpiau iechyd cynhwysiant a grwpiau bregus:<ul><li>Pobl sy'n profi digartrefedd.</li><li>Pobl sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol</li><li>Gweithwyr rhyw</li><li>Ffoaduriaid a cheiswyr lloches</li><li>Cymunedau Sipsiwn, Roma a theithwyr</li></ul></li></ul>Pobl sy'n byw yn y codau post sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig?<br><br>Y sawl sydd â nodweddion gwarchodedig?<br><br>Eich grwpiau iechyd cynhwysiant?<br><br>Eich poblogaeth wledig?<br><br>Pwy sy'n methu apwyntiadau'n rheolaidd?<br><br>Pwy ydych chi wedi'i golli o ran apwyntiadau dilynol?<br><br>A ydych chi wedi gwneud eich Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb eto? Os ydych wedi ei gwblhau, dylai eich canfyddiadau lywio eich atebion i'r cwestiwn hwn.<br><br>Gwiriwch yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb [Asesiad Effaith Cydraddoldeb - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)]. Gallwch hefyd ddod o hyd i dempledi perthnasol gan eich bwrdd iechyd lleol a'ch timau iechyd cyhoeddus lleol. |
| **Beth yw eu hanghenion?** | <ul><li>O fewn y boblogaeth / grŵp(iau) yr ydych wedi eu hadnabod:<ul><li>Pa gyflyrau iechyd neu ffactorau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw sy'n esgor ar yr anghydraddoldebau mwyaf?</li><li>Pa broses o ran gofal sy'n cyfrannu at y broblem?</li><li>A ydych wedi adnabod unrhyw rwystrau penodol i gael mynediad at ofal?</li><li>Pa brofiad sydd angen ei wella i gleifion?</li><li>A yw adnoddau ariannol yn cael eu dyrannu'n deg i gefnogi mentrau tegwch iechyd?</li><li>Unrhyw anghenion eraill yn seiliedig ar eu hamgylchiadau cymdeithasol (penderfynyddion cymdeithasol iechyd)*?</li><li>Beth yw eu hanghenion nad ydynt yn cael eu diwallu?</li><li>Ydych chi wedi siarad â phobl a sefydliadau yn eich ardal a allai fod â rhywfaint o wybodaeth leol?</li></ul></li></ul>Os ydych eisoes yn casglu adborth am brofiad cleifion, dylai'r canfyddiadau hynny lywio rhan o'ch asesiad ar y cam hwn. |

<table>
<tr><td></td><td>Dyma’r ddolen i fersiwn 2 holiadur profiad GIG Cymru er gwybodaeth: <u>Fframwaith ar gyfer Sicrhau Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau (nhs.wales)</u><br><br>Mae penderfynyddion cymdeithasol iechyd yn sgrinio am ffactorau fel sicrwydd bwyd, statws cyflogaeth, a chymorth cymdeithasol. Efallai na fyddwch yn gallu mynd i'r afael â'r rhain ar eich pen eich hun. Meddyliwch sut y gallwch chi gymell cleifion / defnyddwyr gwasanaeth i fanteisio ar adnoddau cymunedol i fynd i'r afael â'r anghenion hyn.</td></tr>
<tr><td>Gan gyfuno’r ‘pwy’ a ‘beth’ yn y ddau gam uchod, ydych chi wedi adnabod eich poblogaeth / grŵp(iau) neu gleifion i’w blaenoriaethu?</td><td>Nodwch eich y boblogaeth sy’n flaenoriaeth a'u hanghenion yma.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cynllunio a Gweithredu: Nawr eich bod wedi adnabod eich grwpiau blaenoriaeth a'u hanghenion, dyma'r amser i feddwl beth yr ydych yn mynd i'w wneud, a sut yr ydych yn mynd i fynd i'r afael â'r materion neu flaenoriaethau yr ydych wedi eu nodi?</td></tr>
<tr><td>Beth ellid ei wella? E.e. gwasanaeth, prosiect, neu lwybr ac ati</td><td>Meddyliwch am y pwyntiau hyn:<br>A ydych wedi edrych ar y dystiolaeth o ba ymyriadau sy’n gweithio?<br>A ydych chi’n gwybod pa wasanaethau a llwybrau sydd eisoes yn bodoli yn eich ardal?<br>A yw llwybrau gwasanaeth yn hygyrch?<br>Pa rwystrau ydych chi wedi eu hystyried?<br>Ydy gwasanaethau yn y lle iawn? Amser iawn?<br>A yw eich llwybrau yn darparu tegwch?</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Beth mae profiad y claf yn ei ddweud am ba welliannau yr hoffent eu gweldWhat does patient experience tell on what improvements they would like to see? |
| **Sut** ydych chi'n mynd i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth yr ydych wedi ei hadnabod? | Meddyliwch am y pethau hyn:<br><br>• A yw'r holl bobl berthnasol wedi'u cynnwys yn eich gwaith cynllunio?<br><br>Mae Canllaw Academi Gwelliant Cymru ar gynnwys pobl eraill yn arf defnyddiol i'ch helpu i feddwl sut i adnabod a chynnwys y bobl berthnasol.<br><br>• Oes gennych chi ddigon o adnoddau? (efallai bod gennych restr hir o adnoddau, ond bod angen sylw penodol ar eich gweithlu a'ch cyllid)<br>• A oes gennych gyllideb wedi'i dyrannu i chi? Beth yw'r ffynhonnell ac am ba hyd?<br>• A yw eich gwybodaeth am gostau a'ch dyraniad cyllideb yn amlygu data ar anghydraddoldebau iechyd (fel Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru, ethnigrwydd, marwolaethau lluosog cyffredin, a phenderfynyddion iechyd ehangach).<br><br>Er mai i Loegr y mae'n berthnasol, mae'r adnodd canlynol yn ddeunydd darllen defnyddiol ac mae'n cynnwys rhai pwyntiau allweddol perthnasol a allai fod yn ddefnyddiol i gefnogi'r modd yr ydych yn meddwl am gyllid ac ariannu sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd ('Bringing it all together: Financial strategies that address health inequalities')<br><br>• A all eich staff gyfeirio defnyddwyr gwasanaeth yn hyderus at y gwasanaethau cymdeithasol a/neu sefydliadau trydydd sector perthnasol am gymorth?<br><br>Hyfforddi staff yn rheolaidd ar degwch iechyd, iechyd cynhwysiant, cymhwysedd diwylliannol, a thuedd sydd ymhlyg wrth weithgareddau eraill. Gweler y cyfeiriadur addysg am gyrsiau perthnasol ar anghydraddoldebau iechyd ac iechyd cynhwysiant. Cyfeiriadur Addysg a Hyfforddiant yn y Maes Iechyd Cynhwysiant ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol - Gofal Sylfaenol Un (nhs.wales)<br><br>Ceir gwybodaeth am wasanaethau cymorth lleol ar wefannau awdurdodau lleol.<br><br>Mae Dewis Cymru hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am wasanaethau a chymorth iechyd a gofal cymdeithasol yn eich ardal, a gallwch chwilio yn ôl cod post https://www.dewis.cymru/<br><br>Gall eich Cynghorau Gwirfoddol Lleol helpu hefyd. Mae gan ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru un. |

| | |
|---|---|
| | • A ydych yn ymgysylltu'n effeithiol â'r cymunedau yr ydych yn eu gwasanaethu?<br><br>Ewch ati i adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau cymunedol i wella argaeledd adnoddau a chefnogaeth i gleifion. Dylech eirioli dros bolisïau sy'n hybu tegwch iechyd ac sy'n mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd ar lefel systemig. Fel arfer mae gan eich awdurdodau lleol a'ch cynghorau gwirfoddol lleol arweinwyr cydraddoldeb penodol. Cysylltwch â nhw i gael gwybod pwy sy'n gweithio ar yr agenda tegwch a chydraddoldeb, a gofyn a allent eich cysylltu â'r grwpiau cymunedol perthnasol a nodwyd yn eich blaenoriaethau yn y cam cyntaf.<br><br>• Pwy arall all eich helpu ar y cam hwn? A allech chi ddefnyddio ymyriadau dinesig, ymyriadau ar lefel gwasanaeth neu ymyriadau cymunedol, ac a allech chi fynd i'r afael â'r broblem gan sicrhau'r cysylltiad mwyaf posibl â phoblogaeth fawr, a hynny ar raddfa?<br>• Allwch chi gyd-ddylunio? |
| **A ydych** yn casglu'r data angenrheidiol i fonitro eich cynnydd? | Meddyliwch am y pethau hyn:<br><br>• pa grŵp neu pwy sy'n profi annhegwch iechyd fwyaf?<br>• Ydych chi'n casglu manylion am y ddemograffeg (ydych chi'n cofnodi oedran, rhywedd, ethnigrwydd, cod post, statws economaidd-gymdeithasol)<br>• Pa ganlyniadau iechyd sydd angen i chi eu cofnodi?<br><br>Byddwch eisoes wedi sylwi ar gwestiynau ynghylch data ym mhob adran, mae hyn oherwydd bod y data yn un o'r agweddau allweddol ar eich cynllun a fydd yn eich helpu ar wahanol gamau. Efallai y bydd y cwestiwn yn ymddangos yr un fath, ond byddai'r diben yn wahanol ym mhob cam o'ch gwaith yn cynllunio a chyflwyno prosiect neu raglen |
| • **Sut mae** eich gwasanaeth, rhaglen neu brosiect yn debygol o effeithio ar anghydraddoldebau iechyd (yn gadarnhaol neu'n negyddol)?<br>• **A** allai eich ymyriadau gynyddu | Ystyriwch beth yw gwraidd yr anghydraddoldebau hyn. Beth yw'r penderfynyddion iechyd ehangach sy'n esgor ar anghydraddoldebau yn y grŵp poblogaeth yr ydych wedi ei nodi.<br><br>Meddyliwch a yw canlyniadau'n amrywio ar draws grwpiau, a phwy sy'n elwa fwyaf a lleiaf.<br><br>Ystyriwch effaith gadarnhaol a negyddol eich gwasanaeth ar y boblogaeth yr ydych wedi ei nodi. |

| | |
|---|---|
| anghydraddoldebau iechyd? | Byddwch yn ofalus y gallai eich cynllun ehangu anghydraddoldebau drwy:<br><br>○ Canolbwyntio ar gamau gweithredu ar lefel unigolion yn unig, sy'n debygol o fod yn gamau a gymerir gan grwpiau cefnog.<br><br>○ Peidio â mynd i'r afael â'r sbectrwm ehangach, llawn o ran gwraidd problemau – ni allwch wneud hyn ar eich pen eich hun, ond gall eich partneriaid ehangach mewn awdurdodau lleol, y trydydd sector, gwasanaethau cymdeithasol a phobl eraill helpu â hyn. Ceisiwch adnabod pwy yw eich rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiannau ac amcanion cyffredin, a gofynnwch am eu cefnogaeth. Cynlluniwch eich prosiect / gwasanaeth ar y cyd (dewch o hyd i'ch criw dethol, a rhoddwch eich ymddiriedaeth ynddynt).<br><br>○ Dibynnu gormod ar ymyriadau dan arweiniad proffesiynol yn unig.<br><br>○ Peidio â mynd i'r afael â gwreiddiau sylfaenol anghydraddoldebau iechyd<br><br>○ Peidio ag ystyried cost yr ymyriad (ar gyfer gofal sylfaenol ac ar gyfer aelodau'r cyhoedd): Gallai rhai ymyriadau iechyd, hyd yn oed pan maent yn cael cymhorthdal, esgor ar gostau y mae'n rhaid i unigolion dalu amdanynt (e.e. cludiant, amser i ffwrdd o'r gwaith) na all unigolion tlotach eu fforddio.<br><br>○ Peidio ag ystyried costau cyfle: Gall unigolion ag incwm is flaenoriaethu anghenion ariannol uniongyrchol dros ymyriadau iechyd nad ydynt yn arwain at fuddion uniongyrchol.<br><br>○ Peidio ag ystyried:<br>    ○ credoau ac agweddau diwylliannol: Gall agweddau diwylliannol amrywiol tuag at ofal iechyd ddylanwadu ar ganfyddiad o ymyriadau gan grwpiau gwahanol o bobl, a'r graddau y maent yn derbyn yr ymyriadau hynny. Gallai grwpiau lleiafrifol neu grwpiau difreintiedig fod â llai o ymddiriedaeth yn y system gofal iechyd neu wynebu rhwystrau diwylliannol o ran derbyn ymyriadau.<br>    ○ Cymorth Cymdeithasol: Yn aml mae gan grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch systemau cymorth cymdeithasol gwell sy'n hwyluso'r unigolion i dderbyn ymyriadau iechyd. Dylid ystyried sut y gallech hyrwyddo hynny yn eich ardaloedd o amddifadedd ac ymhlith grwpiau sydd ag anghenion niferus a chymhleth. |

| | |
|---|---|
| | |
| • Sut y byddwch yn monitro ac yn gwerthuso effaith eich gwasanaeth / prosiect / rhaglen ar wahanol grwpiau poblogaeth sydd mewn perygl o anghydraddoldebau iechyd?<br>• Pa fesuryddion o ran allbwn neu pa brosesau y gallech eu hystyried?<br>• Pa fesuryddion canlyniadau allech chi ei ystyried?<br>• Pa mor dda ydych chi'n gwybod a yw anghydraddoldebau iechyd wedi'u lleihau? | Yn eich gwerthusiad, ystyriwch unrhyw amrywiadau yn seiliedig ar nifer o ddimensiynau o ran anghydraddoldebau fel y nodwyd gennych yn eich cam asesu.<br><br>Cysylltwch â'ch tîm iechyd cyhoeddus lleol a/neu brifysgolion lleol iddynt roi cyngor a chymorth i chi ar eich cynllun gwerthuso. |
| Adolygu – gwnewch yn siŵr bod gennych gynllun gwerthuso da ac adolygwch eich cynnydd | |
| **A ydych** chi wedi gwneud gwahaniaeth? | • Ydych chi wedi cyflawni'r newid yr oeddech am ei wneud?<br>• Sut fyddwch chi'n gwybod a ydych chi wedi gwneud gwahaniaeth? (Beth mae eich data yn ei ddweud wrthych chi?)<br>• Beth fyddwch chi'n ei wneud yn wahanol i sbarduno gwelliannau?<br>• Wnaethoch chi sylwi ar unrhyw sgil-effeithiau ehangach?<br>• Pwy all eich helpu yn eich adolygiad a gwerthusiad (meddyliwch am brifysgolion lleol, timau iechyd cyhoeddus lleol a/neu genedlaethol) delfrydol i neilltuo o leiaf 15% o'ch adnodd (cyllideb ar gyfer gwerthuso)<br><br>Wrth ateb cwestiynau ar y cam hwn efallai y byddwch am ystyried y canlynol os yw'n briodol: i ba raddau y mae eich ymyriadau wedi:<br><br>• Wedi helpu wrth leihau anghydraddoldebau iechyd yn eich darpariaeth gwasanaeth, prosesau, llwybrau, a phrofiad cleifion?<br>• Helpu i greu llai o anghydraddoldebau yn gyffredinol sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol a meddyliol? |

| | |
|---|---|
| | • Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws cymunedau a'r grwpiau blaenoriaeth yr ydych wedi eu hadnabod.<br>• Ydych chi'n gallu dangos yr elw ar fuddsoddiad (economaidd neu gymdeithasol)?<br>• Ydych chi wedi gallu gwneud y mwyaf o'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl am y gost isaf bosibl? |

**Myfyrdodau**

# Atodiad 1: Ffynonellau data

| Ffynhonnell data | Manylion | Dolen |
|---|---|---|
| **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yw'r dull swyddogol o fesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl gwahanol fath o amddifadedd. Mae'n Ystadegyn Cenedlaethol a gynhyrchir gan ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru. | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - Hafan (llyw.cymru) |
| **StatsCymru** | Data swyddogol manwl ar Gymru sydd "fwy neu lai yn cyfateb i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol": y boblogaeth; iechyd a gofal cymdeithasol; gofal sylfaenol, fferylliaeth, optometreg, diogelwch cymunedol a chynhwysiant; cydraddoldeb ac amrywiaeth; tai; addysg a sgiliau; yr amgylchedd a chefn gwlad; yr economi a'r farchnad lafur. | Catalog (llyw.cymru)<br><br>Amddifadedd ar lefel Clwstwr Meddygon Teulu (llyw.cymru)<br><br>Contract GMC (llyw.cymru) |
| **Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus** | Yn cynnwys y brif ffynhonnell ddata, dadansoddi data ac adolygu tystiolaeth a chanllawiau. | Arsyllfa - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)<br><br>Dolen i'r dangosfwrdd o glystyrau gofal sylfaenol Dangosfwrdd Clystyrau Gofal Sylfaenol - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru) |
| **Is-adran Gofal Sylfaenol - tudalennau ar ddata o ran anghydraddoldeb a chynhwysiant iechyd** | | |
| **Porth Data a Dadansoddeg Addysg a Gwella Iechyd Cymru** | Mae'r dangosfyrddau'n cynnwys gwybodaeth am y gweithlu, pyramid y boblogaeth, y gweithlu iechyd meddwl a mewnwelediad i hyfforddiant meddygon teulu ynghyd â'r data ar amcangyfrifon dros amser ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Mae hefyd yn cynnwys data'r Cyfrifiad. | Porth Data a Dadansoddeg Addysg a Gwella Iechyd Cymru<br>Dangosfwrdd y Boblogaeth - Power BI |
| **Arolwg Cenedlaethol Cymru** | Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys tua 12,000 o bobl bob blwyddyn ac yn ymdrin ag ystod eang o bynciau. Mae'n rhedeg drwy'r flwyddyn, ar draws Cymru gyfan. Defnyddir y canlyniadau gan Lywodraeth Cymru i helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw.<br><br>Mae eu bwletin iechyd a gofal cymdeithasol yn adrodd ar ddefnydd a boddhad pobl o feddygfeydd teulu a gwasanaethau mewn ysbytai. | Arolwg Cenedlaethol Cymru \| llyw.cymru<br><br>Ffordd o fyw Oedolion (Arolwg Cenedlaethol Cymru) \| llyw.cymru<br><br>Gwasanaethau ysbyty a Meddyg Teulu (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2021 i Fawrth 2022 \| llyw.cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Mapiau Iechyd Cymru** | Mae Mapiau Iechyd Cymru yn archwilio ystod eang o ddangosyddion iechyd fesul ardal, gan fapio tueddiadau mewn data dros amser a gwneud cymariaethau ar lefelau lleol a chenedlaethol. (Maent yn canolbwyntio'n bennaf ar lefelau salwch a chlefydau yn hytrach na lles): Derbyniadau i'r ysbyty; marwolaethau canser; lefelau mynychu adrannau damweiniau ac achosion brys; atgyfeiriadau cleifion allanol; nifer derbyniadau yn sgil camddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon; amseroedd aros ar gyfer triniaeth arferol; | Iechyd a Gofal Digidol Cymru – Croeso i Fapiau Iechyd Cymru |
| **InfoBase Cymru** | Offeryn rhyngweithiol ar y we yw InfoBase Cymru sy'n darparu mynediad rhwydd at ystod eang o ystadegau sy'n cwmpasu llawer o themâu gan gynnwys pobl, yr economi, addysg, iechyd, tai, a throseddu. Pobl, cymunedau a chydraddoldeb; cyflogaeth a busnes; plant, pobl ifanc ac addysg; iechyd a gofal cymdeithasol; yr amgylchedd a chynaliadwyedd; llywodraeth leol; y Cyfrifiad.<br>Mae hefyd yn cynnwys data ar nifer y ceiswyr lloches ym mhob awdurdod lleol. | Hafan – InfoBase Cymru |
| **Ystadegau Llywodraeth Cymru** | Mae ystadegau'r Llywodraeth yn cyhoeddi amrywiaeth eang o ddangosyddion yn ymwneud ag iechyd poblogaeth Cymru a phenderfynyddion iechyd ehangach. Mae'r ystadegau hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y gweithlu gofal sylfaenol. | Ystadegau ac ymchwil \| llyw.cymru |
| **Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol** | Mae'r Porth yn cynnwys data ar lefel clwstwr a lefel meddygon teulu ar gyfer cyflyrau cronig, rhagnodi, brechu ac imiwneiddio, sgrinio ynghyd â data ar gontractau ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol. | Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol (cymru.gig.uk) |
| **Arsyllfa Wledig Cymru** | Mae'r Arsyllfa yn cynnwys ystadegau gwledig ac ymchwil ar lefel awdurdod lleol. | Ystadegau Gwledig \| Arsyllfa Wledig Cymru |
| **Mynegai Lles y Gymuned** | Mae'r Mynegai yn rhoi cipolwg ar yr hyn sy'n bwysig i bobl mewn cymunedau lleol. O ansawdd addysg, fforddiadwyedd tai, a thrafnidiaeth gyhoeddus – i faint o fannau gwyrdd a nifer y canolfannau cymunedol sydd mewn ardal. Maent wedi casglu data ar gyfer dros 28,000 o gymunedau ledled y DU, i ddeall sut y maent yn sgorio ar draws yr agweddau hyn a llawer o fesurau llesiant eraill. | Hafan \| Mynegai Llesiant (coop.co.uk)<br><br>Gallwch nodi eich cod post a gweld sgôr llesiant eich cymuned, er enghraifft: |

| | | |
|---|---|---|
| | |  |
| **Mapiau rhyngweithiol cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol** | Niferoedd y boblogaeth; iechyd cyffredinol; statws cyflogaeth; cyfansoddiad y cartref; ethnigrwydd; crefydd; darparwyr gofal. | Gallwch nodi eich cod post neu enw eich tref i adeiladu eich proffil ardal 'Build a custom area profile - Census 2021', Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| **Arolwg Cenedlaethol Cymru** | Ymddygiad o ran ffordd o fyw; defnydd o wasanaethau; cymunedau, diwylliant a'r iaith Gymraeg; ardal leol a'r amgylchedd; rhyngrwyd a'r cyfryngau; plant ac addysg; chwaraeon a hamdden; cyllid. | Arolwg Cenedlaethol Cymru \| llyw.cymru |
| **Dangosfwrdd Tlodi Tanwydd gan Lywodraeth Cymru** | Mae'r dangosfwrdd yn dangos amcangyfrifon tlodi tanwydd yng Nghymru. | Tlodi tanwydd yng Nghymru: dangosfwrdd rhyngweithiol \| llyw.cymru |
| **Dangosfwrdd Data Tlodi** | Mae'r dangosfwrdd wedi'i ddylunio a'i gynhyrchu gan Data Cymru i gasglu data sy'n ymwneud â mesuryddion tlodi ar draws themâu allweddol y Mynegai Amddifadedd ar gyfer pob awdurdod lleol. | Golwg ar dlodi - Data Cymru |
| **Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru** | Mae Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru yn cael ei chynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i adlewyrchu rôl y Bartneriaeth o ran mudo ar lefel Cymru Gyfan, ac i helpu i gydweithio yn agosach â gwasanaethau cyhoeddus a'r 22 o gynghorau yng Nghymru, gan gysylltu â strwythurau gwleidyddol llywodraeth leol a'r blaenoriaethau lleol.<br>Mae'r wefan yn cynnwys y data a ganlyn: Nifer y Ceiswyr Lloches fesul ALl, hyd at 2022<br>Nifer y ffoaduriaid a adsefydlwyd o dan Raglen Adsefydlu Pobl Fregus o Syria yn ôl ALl (rhwng 2015-2021)<br>Mae hefyd yn cynnwys rhai straeon ac astudiaethau achos | Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru \| Wales Strategic Migration Partnership (wsmp.wales) |

| | | |
|---|---|---|
| **Ffynonellau data eraill ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid** | Ffynonellau data amrywiol yn darparu gwybodaeth am nifer y ceiswyr lloches a ffoaduriaid ar lefel Cymru ac ar lefel awdurdod lleol. | Plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru)<br><br>Setiau data ar geiswyr lloches ac adsefydlu - GOV.UK (www.gov.uk)<br><br>Data lleol ar fewnfudwyr yn y DU yr Arsyllfa Mewnfudo (ox.ac.uk) |
| **Digartrefedd a sefyllfaoedd tai ansefydlog** | Adroddiadau misol ar y defnydd a wneir o lety dros dro a chysgu allan. | Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan \| llyw.cymru<br><br>Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) |
| **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** | Data ar nifer y lleiniau yn ôl statws preswyl, statws meddiannu ac awdurdod lleol.<br>Nifer y carafanau yn ôl eu hawdurdodiad ac awdurdod lleol<br>Nifer y safleoedd yn ôl eu hawdurdodiad ac awdurdod lleol<br>Siartiau o nifer y safleoedd yn ôl eu hawdurdodiad yng Nghymru<br>Nifer y lleiniau yn ôl statws preswyl, statws meddiannu ac awdurdod lleol | Cyfrif carafanau Sipsiwn a Theithwyr (llyw.cymru)<br><br>'Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities' – Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb – Tŷ'r Cyffredin (parliament.uk) |
| **Pobl sydd mewn cysylltiad â'r system Cyfiawnder Troseddol** | Mae data cyfiawnder yn cynnwys: Cyfiawnder mewn niferoedd, Ystadegau ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol, data ar gyfer Carchardai, data ar gyfer gwasanaethau prawf, y gwasanaethau a gontractir, data llysoedd a chymorth cyfreithiol a data ar gyfer bywyd ar ôl gadael y carchar ynghylch llety a chyflogaeth yng Nghymru a Lloegr. | Data ar Gyfiawnder<br><br>Anheddau a gymeradwyir yng Nghymru - gov.uk<br><br>Y Prif Fesuryddion - Cyfiawnder mewn Niferoedd - Data ar Gyfiawnder<br><br>Data ar Wasanaeth Prawf - Data ar Gyfiawnder<br><br>'About the dashboard' - CJS Dashboard (justice.gov.uk) |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mapiau rhanbarthol o'r gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr gov.uk |

# References:


1- Public Health Wales (2000). Health inequalities impact assessment: Planning for a positive impact Planning for a Positive Impact (phwwhocc.co.uk)

2- Public Health Wales (2020). Health Impact Assessment Template / record sheet. WHIASU WHIASU_HIA_Workshop_Record_sheet.pdf (phwwhocc.co.uk)

3- Public Health Wales. Equality and Health Impact Assessment template PHW Equality & Health Impact Assessment.doc (sharepoint.com)

4- Public Health England (2020), Health Equity Assessment Tool ( HEAT) – Public Health England Health Equity Assessment Tool (HEAT): executive summary - GOV.UK (www.gov.uk)

5- New Zealand (2008) The Health Equity Assessment Tool- New Zealand The Healthy Equity Assessment Tool: A User's Guide

6- Inclusion Health self-Assessment Tool for primary care networks Inclusion Health Tool for Primary Care Networks - Friends, Families & Travellers (inclusion-health.org)

7- Friends, Families and Travellers, Inclusion Health Self-Assessment Tool for Primary Care Networks! Inclusion Health Tool for Primary Care Networks - Friends, Families & Travellers (inclusion-health.org)

8- Health Care Quality Commission (2024). Rapid evidence review: Tackling inequalities through the regulation of services and organisations. Rapid evidence review: Tackling inequalities through the regulation of services and organisations - Care Quality Commission (cqc.org.uk).